

PAPUR



**NA FARNA DDUW Â'TH RESWM NOETH.
CRED EI ADDEWID RAD;
TU CEFN I LEN RHAGLUNIAETH DDOETH
MAE'N CUDDIO WYNEB TAD**

William Cowper. Cyf. Lewis Edwards

Caneuon Ffydd : 66


*Dewiswyd y dyfyniad gan Eluned Maddox, Hafan Tywi,
Y Rhodfa, sef pennill o un o'i hoff emynau*

Rhifyn 297
PAPUR CHWEFWROR 2017

GAIR GAN EIN GWEINIDOG


CODI MUR

PAM codi muriau? Er mwyn ein cadw'n ddiogel? Er mwyn cadw'r gelyn draw? Mae gan yr Arlywydd Trump ei resymau ei hun dros godi mur rhwng UDA a Mecsico.



Cododd y Tseiniaid fur er mwyn cadw'r gelyn mas. Codwyd Wal Hadrian, er mwyn cadw llwythau gwyllt y gogledd rhag amharu ar fywyd y caerau Rhufeinig yn y de.

Gwell o lawer gen i sôn am ddymchwel muriau.



Ydy chi'n cofio'r dydd ym 1989 pan ddymchwelwyd Wal Berlin? Cafodd pobl o'r gorllewin a'r dwyrain gyfle i ailgyfarfod wedi 45 mlynedd o fod ar wahân.

Ond er bod y wal wedi'i dymchwel, efallai fod yr Almaenwyr wedi darganfod bod mur arall, un nad oedd modd ei gweld na'i chyffwrdd, a oedd yn fwy anodd i'w dymchwel nag unrhyw sment a choncritid.

Mae muriau anweledig ym mywyd pob un ohonom sy'n anodd eu dymchwel.


Muriau rhyngom ni a'n gilydd. Rhyngom ni a'n teulu, a rhyngom ni a Duw ar adegau.

Muriau ein heiddigeddau a'n casinebau.

DAETH lesu i ddymchwel muriau ac nid i'w codi - rhwng

cenehedloedd a'i gilydd, rhwng pobl a'i gilydd a rhyngom ni a Duw. Bu farw Iesu drosom er mwyn cael gwared ar y pethau sy'n ein rhwystro rhag adnabod Duw, er mwyn byw mewn perthynas dda ac iach, a gosod heddwch yn sylfaen i bob perthynas.

Heddwch o'n mewn, i ddifa llygredd calon,
 Heddwch i'th saint yng nghanol eu pryderon,
 Heddwch i'r byd, yn lle ei frwydrau creulon,
 Heddwch y cymod.



GWEDDI

Dduw Dad, yr hwn sydd Ddaioni uwchlaw pob daioni,
 Tegwch uwchlaw pob tegwch,
 yr un y trig llonyddwch,
 tangnefedd a chytgord ynddo;
 cyfanna di'r ymrafaelion a'n gwahana oddi wrth ein gilydd,
 a dwg ni yn ôl i'r undeb cariad hwnnw,
 y mae arno beth o ddelw dy natur ddwyfol di.



AMEN



BYW Y BEIBL

BLWYDDYN BYW Y BEIBL



BYW Y BEIBL

DARLLENIADAU CHWEFROR

Wythnos 1:	Mathew 5: 3-20
Wythnos 2	Mathew 5: 21-37
Wythnos 3	Mathew 5: 38-48
Wythnos 4	Mathew 17: 1-9

COFIO UN O'R MAWRION AR ACHLYSUR ARBENNIG



MOR rhwydd yw crwydro i bedwar ban byd y dyddiau hyn! Daw â manteision amlwg fel ehangu gorwelion ac ymestyn gwybodaeth ond tybed a yw hynny weithau ar draul anghofio gwreiddiau a dylanwadau bore oes? Hynny oedd ar feddwl un, mae'n siŵr, pan awgrymodd fod perygl i ni golli mewn dyfnder wrth ennill mewn ehangder, colli mewn gwres wrth ennill mewn goleuni a bod, o ganlyniad, angen sicrhau'r hoelion wrth estyn y rhaffau. A dyma'n gryno oedd cyngor Elfed flynyddoedd yn ôl i'r Cymro ifanc a'i olwg '*at y llydan fyd*' pan ddywedodd:

Dante - dos i'w ddilyn,
Shakespeare - tro i'w fyd,
Cofia Bantycelyn
Yr un pryd.

Yn ddiarheul, mae cofio cyfraniad aruthrol mawrion ein cenedl dros ein hiaith a'n crefydd yn gallu'n hysbrydoli a'n hannog i ddyfalbarhau. Ac un o'r mawrion hynny, bid sicr, yw Pantycelyn y dathlwn dri chanmlwyddiant ei eni eleni.

Ynghyd á Howell Harris a Daniel Rowland, roedd Pantycelyn yn un o'r triawd o arweinyddion arbennig o ddylanwadol ac amlwg ym mlynnyddoedd cynnar y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif. Caiff ei adnabod yn bennaf fel Pêr-ganiedydd y Diwygiad.

Ganed William Williams yn y Cefn-coed, Llanfair-ar-y-bryn, Sir Gâr, ym 1717. Ei fwriad gwreiddiol, mae'n debyg, oedd bod yn feddyg ond yn ystod ei gyfnod yn Athrofa Llwyn-llwyd, profodd dröedigaeth dan weinidogaeth Howell Harris ym mynwent Talgarth a phenderfynu mynd yn offeiriad. Cafodd ei urddo'n ddiakon a bu'n gurad yn Llanwrtyd, Llanfihangel a Llanddewi Abergwesyn. ond ni chafodd ei ordeinio'n offeiriad oherwydd ei weithgareddau Methodistaidd. Fel canlyniad, ymunodd â Harris a Rowland ac ymroi i'r Mudiad Methodistaidd yn llwyr. Ym 1749, priododd â Mary Frances o Lansawel a mynd i fwy

i hen gartref ei fam ym Mhantycelyn. Cafodd ei adnabod o hynny ymlaen fel Williams Pantycelyn. Treuliodd weddill ei oes yn teithio led-led Cymru'n pregethu, yn arolygu seiadau, yn gwerthu'i lyfrau emynau ac yn llenyddu.

Gwnaeth hynny am dros hanner can mlynedd. Roedd yn bur dda a chysurus ei fyd a chefnog ei amgylchiadau ac, o bosib, yn fasnachwr te, a hyn oll yn ei alluogi i gadw'i deulu'n gyfforddus tra oedd ar daith ac yn llenyddu.



Bu farw 11 Ionawr 1791 a'i gladdu yn Llanfair-ar-y-bryn. Roedd un o blant Mary ac yntau, sef John, yn glerigwr Methodistaidd.

Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonom wedi dod i wybod am Bantycelyn am y tro cyntaf drwy lyfr emynau un o'n henwadau crefyddol. Daeth hefyd yn rhan annatod o lawer o bobl, yn ddiarwybod iddynt o bosib, wrth iddynt forio canu *Guide me, O Thou great Jehovah* i'r dôn *Cwm Rhondda* ar y cae chwarae neu mewn tŷ tafarn.

Pennaf gymwynas Pantycelyn oedd rhoi mynegiant – ar ffurf barddoniaeth a rhyddiaith - i deimladau a dyheadau'r Diwygiad Methodistaidd. Roedd ei gynnyrch llenyddol yn doreithiog.

Cyhoeddodd fwy na 90 o lyfrau a phamffledi yn ystod ei oes. Ymhlith ei waith roedd gweithiau rhyddiaith yn trafod gwahanol agweddau ar y bywyd crefyddol, fel *Drws y Society Profiad* a *Hanes Holl Grefyddau'r Byd*. Eu pwrpas oedd hyrwyddo tyfiant ysbrydol y Dychweledigion Methodistaidd. Roedd ganddo ddwy gân epig, sef *Theomemphus*, lle mae'n darlunio taith yr enaid unigol o golledigaeth i achubiaeth a *Golwg ar Deyrnas Crist*, sy'n gosod mewn barddoniaeth ddiwinyddiaeth Galфинаidd y Diwygiad Methodistaidd. Mae ganddo hefyd gerddi byrrach a nifer o farwnadau i gofio'u gyd-Fethodistiaid.

Ond emynau Pantycelyn oedd ei gynnyrch pwysicaf o bell ffordd. Cyhoeddodd sawl casgliad ohonynt, fel *Aleluia* (y casgliad cynharaf), *Hosanna i Fab Dafydd*, *Y Môr o Wydr*, *Ffarwel Weledig* a *Gloria in Excelsis*, a hefyd ddau gasgliad Saesneg. A chyfrol i'w thrysori yw'r gyfrol gain honno'n dwyn y teitl *Emynau Pantycelyn*, dan olygyddiaeth Derec Llwyd Morgan, a gyhoeddwyd gan Wasg Gregynog ym 1991.

Ceir yn emynau Pantycelyn fynegiant o feddwl a theimlad y Diwygiad Methodistiaidd. Profiadau ac erfyniadau pobl gyffredin sydd ynddynt a'r rheiny wedi'u mynegi mewn arddull lenyddol newydd sy'n cyfuno'r iaith lafar a'r iaith lenyddol. Caiff Pantycelyn ei ddisgrifio fel cychwynnwr y canu rhydd a'r delyneg ddiweddar.

Roedd Pantycelyn yn emynydd toreithiog. Mae un arbenigwr yn cyfeirio ato fel '*tad*' yr emyn Cymraeg '*ar sail maintioli ei gynnyrch ac ansawdd ei waith gorau*'. Nid oedd bob amser ar ei orau, fodd bynnag, ac roedd diofalwch yn gallu nodweddu'i waith, fel geirfa sathredig, gwallau gramadeol a chloffni mydr ac odl.

Roedd yn mynnu na ddylid cyfansoddi emyn nes teimlo'r '*enaid yn agos i'r nef*' tan awelon yr Ysbryd Glân. Mae'i emynau'n tarddu o '*brofiad byw, a gafael sicr ar Dduw a'i gariad*'. Does ryfedd felly iddynt gyffwrdd ag ysbryd a chalon Cymry'r cyfnod a hefyd genedlaethau i ddod. Roeddent yn llwyddo i fynegi'u profiadau dwysaf a'u dyhead am gwmni Duw.

Yr Hen Bant oedd enw Wil Bryan ar Bantycelyn ac meddai T H Parry Williams: 'A phan roddodd Daniel Owen yng ngenau Wil Bryan y frawddeg ogoneddus '*Mi gymra fy llw fod y Brenin Mawr a'r Hen Bant yn chums*' mi gafodd funud ysbrydoledig, yn siŵr i chi'. Mae'i emynau'n britho tudalennau *Caneuon Ffydd* - 88 ohonynt i gyd - a thudalennau *Mil a Mwy o Emynu* - *Trysorfa o Emynu'r Canrifoedd* (gol. Edwin C Lewis, Cyhoeddiadau'r Gair 2010) a hynny, yn ddi-os, yn dystiolaeth fyw i'r dywediad bachog hwnnw *Williams Piau'r Canu*.

Tamaid i aros pryd yw'r sylwadau hyn gan y bydd darlith i gofio Pantycelyn gan arbenigwr dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y Priordy'r mis hwn. Bydd hefyd Cymanfa arbennig i gofio amdano yma eto ym mis Mehefin.



ANODD dethol un dyfyniad gan Bantycelyn wrth gloi gan mor eang a chyfoethog yw'r dewis ond mentrwn ddefnyddio geiriau un o'i emynau mwyaf adnabyddus. Hawdd tybio'u bod yn mynegi dyhead pob un ohonom:

O llefara, addfwyn lesu,
Mae dy eiriau fel y gwin,
oll yn dwyn i mewn dangnefedd
ag sydd o anfeidrol rin;
mae holl leisiau'r greadigaeth,
holl ddeniadau cnawd a byd,
wrth dy lais hyfrytaf tawel
yn distewi a mynd yn fyd.

Ni all holl hyfrydwch natur,
a'i melystra penna'i maes
fyth gymharu â lleferydd
hyfryd, pur, maddeuol ras;
gad im glywed sŵn dy eiriau,
awdurdodol eiriau'r nef,
oddi mewn yn creu hyfrydwch
nad oes mo'i gyffelyb ef.

Dwed dy fod yn eiddo imi,
mewn llythrennau, eglur, clir;
tor amheuaeth, sych, digysur,
tywyll, dyrys, cyn bo hir;
'rwy'n hiraethu am gael clywed
un o eiriau pur y ne',
nes bod ofon du a thristwch
yn tragwyddol golli eu lle.

DYLAN, DAHL A PHANTYCELYN

Adeg canmlwyddiant Dylan Thomas yn 2014 cafwyd cymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gynnal y dathliadau. Yr un modd y llynedd, adeg canmlwyddiant Roald Dahl. Y mae eleni yn drichanmlwyddiant William Williams Pantycelyn, ond a geir unrhywbeth o'r pwrs cyhoeddus i hybu'r dathlu? Na cheir, ni cheir yr un geiniog.

Wrth gwrs, y mae gwerth masnachol i enwau Dylan Thomas a Roald Dahl: gallant ddenu Americanaid ac eraill i dreulio'u gwyliau yng Nghymru, a llenwi tipyn ar goffrau'r hen wlad. Am Williams, efallai y bydd llond ugain bws o gapelwyr sy'n dotio ar ei lu emynau yn ymweld â'r hen ffarm lle trigodd gynt y tu allan i Lanymddyfri, ond dyna'r oll.

Ac eto, y mae'n bwysig iawn dathlu trichanmlwyddiant Williams, yn syml iawn am ei fod yn fardd a llenor mor fawr. Yr oedd yn gawr o artist cwbl chwyldroadol. Yn 1813 dywedodd Thomas Charles o'r Bala amdano ei fod, drwy ei lenyddiaeth, wedi effeithio 'cyfnewidiad neillduol ar agwedd crefydd yn mhlith y Cymry'. Aeth Saunders Lewis, yn 1927, ymhellach, a dweud mai Williams 'oedd y bardd rhamantus, a'r bardd modern, cyntaf yn Ewrop.'

Yr Athro Derec Llwyd Morgan
BBC Cymru Fyw

DATHLU 300fed WILLIAMS PANTYCELYN

**Y PRIORDY, CAERFYRDDIN
NOS WENER 10 CHWEFROR 2017
am 7 o'r gloch**



PEN-BLWYDD HAPUS PANTYCELYN

Darlith gan

YR ATHRO DENSIL MORGAN

ar

**WILLIAM WILLIAMS, SAUNDERS
LEWIS ac E KERI EVANS**



Croeso cynnes iawn i bawb

*Ganwyd William Williams ar
11 Chwefror 1717. Felly, traddodir y
ddarlith hon ar drothwy dyddiad ei
ben-blwydd*

Trefnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CAPEL Y PRIORDY, CAERFYRDDIN

**CYMANFA FAWR
PANTYCELYN**

**Nos Sul, 18 Mehefin 2017 am 7
Cofio 300 mlwyddiant geni William
Williams, Pantycelyn**



**Arweinydd
John S Davies**

Artistiaid Lleol

Rhaglen: £5 (ar gael cyn bo hir)

Elw at Gronfa Organ

Capel y Priordy



CAMP FFION!



Elinor Wyn Reynolds ...

GWASANAETH PLANT CYNTAF Y FLWYDDYN



AM GYCHWYN i'r flwyddyn newydd!

Fe gafwyd y gwasanaeth plant cyntaf ar ddydd Sul 8 Ionawr eleni a phawb yn barod am gychwyn blwyddyn newydd. Ond pwy feddyliai y byddem ni oll yn dystion i ddigwyddiad mor drawiadol (mwy am hynny yn nes ymlaen)?

Thema'r gwasanaeth oedd 'Rhoi' a'r ffaith bod pob dim y mae pobl yn ei roi, waeth pa mor fach, yn medru bod yn werthfawr i bobl eraill. Cychwynodd Beti-Wyn y gwasanaeth drwy offrymu gweddi agoriadol a chroesawu pawb cyn mynd ymlaen i gyhoeddi emyn 58 sef '*Jubilate*'. Gwnaeth pawb gyd-ddarllen salm gyda'i gilydd ac yna cafwyd y casgliad, y cyrchwyr ceiniogau'r tro yma oedd Jac, Ioan James, Tomos Huw a Cadi ac Ifan (a Dad!). Daeth Harri James i'r pulpud a chyhoeddi emyn 281 sef '*Hedd sy'n llifo fel yr afon*' yn glir fel cloch – ardderchog, Harri.



Tro Syfi, Anest, Siwan, Erin a Gwennlian oedd hi i fynd i'r pulpud ar gyfer y cyflwyniad. Cychwynodd Syfi'r rhan nesaf drwy gyflwyno'r thema o roi i bawb ac fe ddywedodd y byddem ni'n gweld rhywbeth go anarferol ar ddiwedd y gwasanaeth sef y byddai gwahoddiad i ni fynd i'r festri i weld

Ffion Parsons yn cael torri'i gwallt er budd elusen y *Little Princess Trust* sy'n gwneud wigs i blant a phobl ifanc sy'n derbyn triniaeth cancr, aeth hi ymlaen i ddweud ein bod ni wedi rhoi arian yn y casgliad er budd elusen Myeloma UK ac fe'n hatgoffodd ni fod blychau casglu i'w cael yn y Deml 'nôl yn amser Iesu Grist hefyd – diolch, Syfi, hyfryd.

Cyn i ddim byd arall ddigwydd, cafwyd pwt o newyddion gan Radio Priordy a'n cymryd yn ôl i amser Iesu Grist a'r gohebydd Sulwyn Thomas yn darlledu o'r Deml, yntau'n nodi bod prysurdeb wedi

bod, y lle dan ei sang a'r arian yn llifo i mewn i'r blychau casglu yno. Nesaf i'r pulpud oedd Anest, Siwan ac Erin a'r tair yn cymryd rhan lleisiau tri blwch casglu yn y Deml adeg y Pasg yn sôn am eu diwrnod prysur yn y Deml yn dala'r arian a gasglwyd. Roedd y tair yn synnu pa mor brysur fu pethau yn y Deml gyda phawb yn awyddus i roi arian yn y blychau; pawb yn rhoi eu newid sbâr yn llawen i'r bocsys. Sylwodd un o'r blychau bod hen wraig dlawd wedi rhoi dwy geiniog yn y blwch, a'r bocsys eraill yn gwneud sylw na ddylai hi fod wedi trafferthu gyda swm mor fychan o bitw. Ond dywedodd y blwch iddi glywed llais athro newydd o Nasareth, sef Iesu, yn siarad wrth bawb amdani gan ddweud bod y wraig hon wedi rhoi mwy na phawb arall gyda'i gilydd oherwydd doedd gan y wraig dlawd hon ddim oll i'w henw ond y ddwy geiniog ac fe roddodd hi'r rheiny'n llawen – fe roddodd hi *bopeth* oedd ganddi at waith Duw. A dyna yrru'r neges adref i ni'n glir bob un – diolch Anest, Siwan ac Erin, effeithiol iawn.

Arweiniodd Gwenllian ni mewn gweddi'n bwylllog, gweddi oedd yn diolch am roddion ac am werthfawrogi'r hyn y mae pobl yn ei roi. Gofynnodd Gwenllian i ni feddwl am bobl dlawd ac unig, a'r plant hynny sydd heb gartrefi na theuluoedd a hefyd i weddio ar i bob un o'r plant dyfu i fod yn bobl fydd yn gwneud eu gorau i weithio dros heddwch a thegwch i bawb. Diolch Gwenllian am ein harwain ni drwy'r myfyrdod.

Cyhoeddodd Beti-Wyn emyn rhif 800, sef 'Mae'r bysedd sydd yn clicio' a phawb yn cymryd rhan gyda'u lleisiau a'u cyrff.



Galwodd Beti-Wyn y plant i'r sedd fawr a dangosodd siwmpwr fawr, frown gafodd hi gan rywun dros y Nadolig; ac er nad oedd y siwmpwr yn ei ffitio hi na chwaith, efallai, yn ei siwtio hi o ran hynny, roedd hi'n gwerthfawrogi'r anrheg am iddo gael ei roi gyda'r cymhelliad gorau, ac mae'n bwysig i werthfawrogi pob dim, waeth pa mor fawr a brown yw e!

Daeth rhai o'r plant ymlaen i helpu Beti-Wyn: Erin, Cai, Jac a Gwion. Siaradodd am roddion, gan ei bod hi bron yn nos Ystwyll sef yr adeg y'r ystyrir i'r Tri Gŵr Doeth gyrraedd Bethlehem gyda'u hanrhegion nhw i'r baban Iesu: aur a thus a myrr. Dyma anrhegion drudfawr oedd yn symbolau o fywyd Crist i ddod. Roedd gan Beti-Wyn dair coron i'r bechgyn eu gwisgo: fe gafodd Gwion fod yn Caspar, ddaeth a'r aur; Jac oedd Melchior gyda'r thus a Cai oedd Balthasar gyda'r myrr. Ond beth am Erin? Wel, fe gafodd Erin ffon fugail ac oen bach am mai hi oedd y bugail yn y stori hon. Fe roddodd y bugail oen i'r Iesu. Ond sut fedrwyd chi gymharu gwerth oen yn erbyn aur, thus a myrr drud? Amhosib. Mae'r tair anrheg ddrudfawr yn werth llawer mwy nag oen bach, does bosib? Mi fyddai rhywun yn meddwl mai'r Tri Gŵr Doeth roddodd y mwyaf felly, ond roedden nhw'n meddu ar gyfoeth anferthol, un tlawd oedd y bugail, rhoddodd anifail oedd yn werthfawr iawn iddo yntau i'r Iesu ac felly roedd y bugail wedi rhoi mwy mewn ffordd, onid oedd? Neges Beti-Wyn oedd ei bod hi'n bwysig ein bod ni oll yn rhoi o'n gorau a hyd eithaf ein gallu – o'r lleiaf i'r mwyaf yn ein plith.

Canwyd emyn 800 '*Un cam bach*' ac yna cafwyd y fendith.

A nawr at ran ddramatig y gwasanaeth ... Gwahoddwyd pawb i'r festri i weld Ffion Parsons yn cael torri ei gwallt er budd elusen. Dyma Ffion yn dangos ei bod hi'n rhoi hyd eithaf ei gallu er budd eraill. Felly, am un bore Sul, gweddnewidiwyd y festri'n salon trin gwallt o dan siswrn deheuig Gwenda Davies o Siop y Siswrn. Cyn mynd i'r festri, rhoddodd Beti-Wyn siars ddifrifol ar i neb fynd adre a thorri eu gwalltiau ... NEB. Dw i ddim wedi clywed bod unrhyw un wedi mynd i chwilio siswrn wedi mynd adre, felly popeth yn dda fan'na.

Ac yna yn y festri, dyna lle'r oedd Ffion yn ein disgwyl gyda Gwenda. Roedd y

festri'n llawn hyd at yr ymylon. Esboniodd Gwenda fod Ffion wedi bod



yn tyfu ei gwallt am o leiaf tair blynedd ac y byddai ganddi werth 22 modfedd o wallt coch, hyfryd i" w roi i'r elusen *Little Princess Trust* er mwyn iddyn nhw greu eu wigs.

Sawl blwyddyn yn ôl, clywodd Ffion bod prinder mawr o wallt coch i wneud y wigs ac felly, fe blannwyd yr hedyn ar gyfer tyfu ei gwallt a



dyma hi ar ddiwedd y cyfnod hir yn cyflwyno llond pen o'i gwallt i helpu pobl eraill. Plethodd Gwenda wallt Ffion er mwyn ei ddal yn ei le ac yna, dechreuodd pawb gyfri lawr; deg ... naw ... wyth ... saith ... roedd tipyn o dyndra yn yr awyr ... tri ... dau ... UN! A chydag ambell i snip-snip, fe dorwyd y gwallt yn rhydd a phawb yn cymeradwyo. Am foment! Daliodd Gwenda'r

blethen 22 modfedd o hyd i fyny'n uchel i bawb gael gweld. Gwych! Ac yn sydyn roedd gan Ffion 'bob'! Ac roedd hi'n edrych yn wych gyda'i gwallt newydd byr. Fe gododd Ffion yn agos at £2000 ar gyfer elusen Myeloma UK yn ogystal, a gellir cyfrannu o hyd trwy **Just Giving**, os dymunwch. Llongyfarchiadau mawr, mawr, MAWR iddi.

MI HOFFWN ychwanegu neges uniongyrchol i Ffion, ar ran pob un ohonom. Ffion, does neb wedi gwneud unrhyw beth fel hyn yn hanes eglwys y Priordy ERIOED! Ti yw'r cyntaf. Mi ddylet ti fod yn falch iawn o dy hunan, o dy ddyfalbarhad ac o dy ymgais i wneud dy orau er lles eraill. Ry'n ni mor browd ohonot ti.



DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD

Oedfa Gymraeg
Dydd Gwener, 3 Mawrth 2017 – 10.30
Capel Wesle

Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2017 gan
Chwiorydd *Ynysoedd y Philipîn*



RWY'N GWELD O BELL.....!!!



Gallwch anghofio am y chwyddwydr o hyn ymlaen. Mae fersiwn mwy o beibl.net wedi'i gyhoeddi a chopi yn y pulpud ac yn y festri yn y Priordy

Does dim rhaid i unrhyw un sy'n dymuno darllen o beibl.net boeni dim o hyn ymlaen. Mae'r testun bellach yn gwbl weladwy.

Diolch am beibl.net ac mae'n siŵr ein bod i gyd yn edmygu'r gwaith campus a gyflawnodd Arfon Jones yn paratoi'r testun.

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

**ELIS A MEINIR JONES
CNWC Y GWILI**

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

HEN SBECTOLAU

Byddwn yn casglu hen sbectolau ar gyfer *Vision Aid Overseas* yn ystod Suliau Chwefror. *Bydd blwch yn y cyntedd ar gyfer derbyn eich rhoddion*
Diolch am eich cefnogaeth



DOD I NABOD BEIBL.NET

Ceisiwch lanw'r bylchau gwybodaeth heb gyfeirio at y testun! Mae deg bwllch gwybodaeth i gyd a'r rhif mewn cromfachau'n nodi nifer y llythrennau sydd ym mhob gair. Cofiwch mai un llythyren yw *ch, ff, ll ac rh!*



Y Crist oedd yn bod ar y dechrau cyntaf. Roedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Roedd gyda Duw o'r dechrau cyntaf un. Drwyddo y crëwyd popeth sy'n bod. Does dim yn bodoli ond beth greodd e. Ynddo fe roedd bywyd, a'r bywyd hwnnw'n rhoi golau i bobl. Mae'r golau'n dal i _____ (10) yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei _____ (5).

Dim loan ei hun oedd y golau; dweud wrth bobl am y golau roedd e'n ei wneud. Roedd y golau ____ (2) _____ (4), sy'n rhoi golau i bawb, ar fin dod i'r byd.

Daeth y Gair yn _____ (6) o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelon ni ei ysblander dwyfol – ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth y Tad yn llawn _____ (8) a gwirionedd.

Dyma'r un roedd loan yn sôn amdano. Cyhoeddodd yn uchel, 'Dyma'r un ddwedais i amdano. Mae'r un sy'n dod ar fy ôl i yn _____ (8) na fi. Roedd e'n _____ (6) o'm blaen i'.

Does neb erioed wedi gweld Duw, ond mae'r Mab _____ (7) hwn (sy'n Dduw ei hun) gyda'r berthynas agosaf posib i'r Tad, wedi _____ (5) yn glir amdano.

ATEBION

Gweler loan 1 (*beibl.net*)



GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYN YN YR OFALAETH

Y Priordy – Bore Sul, 1 Ionawr 2017

DYMA un arall o'n hen draddodiadau, a braf oedd gweld cynulleidfa deilwng wedi dod ynghyd. Lluniwyd y gwasanaeth o gwmpas y pennawd " *Edrych yn ein Blaen...*" a hynny'n addas iawn ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn newydd. Aelodau Bancyfelin oedd yn gyfrifol am yr oedfa'r tro hwn.



Yn naturiol iawn, roedd natur cymuned Bancyfelin wedi llywio'r neges ganolog, a thynnu ar ddelwedd yr aradr a'r sawl sy'n ei gweithio. Mor bwysig yw cael y gwys gyntaf yn syth, a gweddiill y gwaith yn fwy cymen o'r herwydd. Teimlad da yw gwybod bod patrwm i adeiladu arno, a threfn i bethau. Ac i'r Cristion, mae patrwm y

bywyd Cristnogol a'i werthoedd a'i egwyddorion yn sail da i bopeth a wnawn.

Diolch i bawb a gyflwynodd eu gwaith yn raenus, sef Carwen Howells, Elizabeth Thomas, Carwen Earles, Heledd Griffiths, Joanne Richards, Dr Eirian Thomas, Trefina Jones, Eleri Waters, Gwyneth Stephens, Meinir Walters, Moira Howells a Vera Thomas (Bancyfelin), Mair Jones (Cana) ac Elis Jones (Y Priordy), Eira Phillips oedd, ein cyfeillydd. Beti-Wyn oedd wedi paratoi eitem briodol ar y sgrîn i ni fyfyrio arni. Y casglyddion oedd Ffion Parsons, Gwenan Fflur ac Eiliw Mai..

Cyfranogwyd o'r Cymun ar ddiwedd yr oedfa, a chawsom gyfle i gofio'r diweddar Gilmour Davies, a chydymdeimlo â'i deulu, a hefyd â Delyth Gwawr Davies a gollodd ei chwaer yn diweddar. Soniwyd yn ogystal am rai sydd wedi bod yn anhwylyd dros gyfnod y Nadolig neu'n gaeth i'w cartrefi. Cynorthwyodd y Dr Eirian Thomas (Bancyfelin), Howard James (Cana), Catrin Heledd Jones a Chris Lloyd (Y Priordy) i weini'r Cymun.



YMLAEN â ni nawr fel gofalaeth i adeiladu ar ddechrau da i 2017.

TWRNAMAINT PÊL-RWYD A PHÊL-DROED MIC



Croeso i dudalen Ifanc@Priordy

Erw Hir

Clywsom eich bod wedi cynnal gwasnaeth hyfryd yng Nghartref Gofal Erw Hir. Da iawn chi a diolch i Llinos am drefnu'r cwbl.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau enfawr i bawb a fu'n cymryd rhan yn Nhwrnamaint Chwaraeon MIC. Roedd pawb yn wych!

Llongyfarchiadau arbennig i dîm pêl-rwyd cynradd Y Priordy ar gipio'r cwpan eleni!



Gŵyl Dewi



Mae Gwasanaeth Gŵyl Dewi'r dref yn Y Priordy eleni! Y dyddiad yw bore Sul, 26 Chwefror am 10 o'r gloch. Plant oedran cynradd i wisgo'u gwisgoedd Cymreig l'r oedfa. Bydd y plant cynradd i gyd yn canu cân

gyda'i gilydd sef '*Mae'r bysedd bach yn clicio*'!
Felly, dechreuwch ymarfer eich clicio!

Parêd Dewi Sant

Mae'r Priordy wedi cael gwahoddiad i ymuno ym
Mharêd Dewi Sant eto eleni!

Y dyddiad yw dydd Sadwrn,

25 Chwefror. Cwrdd ym Mharc y Dref am



10.45yb yn barod i

orymdeithio drwy'r dref.

Edrychwn mas am faner

Y Priordy yn y parc! O

ie, fe fydd angen help

arnaf i'w chario! Diolch!



Calendr y mis

Chwefror 5 - Ysgol Sul a PIP

Chwefror 12 - Ysgol Sul a PIP

Chwefror 19 - Hanner Tymor

Chwefror 26 - Oedfa Gŵyl

Dewi

Mawrth 5 - Ysgol Sul a PIP

Twdlw am y tro! Beti-Wyn

YR YSGOL SUL YN CYNNAL GWASANAETH YNG NGHARTREF ERW HIR



Dr Llinos Roberts Williams...

**YMWELIAD YR YSGOL SUL Â
CHARTREF ERW HIR
22 Ionawr 2017**

A DROTHWY dathlu Diwrnod Santes Dwynwen, roedd yn briodol mai 'cariad' oedd thema'r gwasanaeth pan aeth yr Ysgol Sul i ymweld â Chartref Erw Hir.



Cawsom groeso cynnes a thrigolion Erw Hir yn amlwg wedi mwynhau clywed y plant yn canu a darllen.

Diolch i Megan, Gwion, Osian a Jac am eu darlleniadau graenus a chlir.

Diolch hefyd i'r holl blant a

phobl ifanc am ganu mor wych, ac i Catrin am lwyddo i chwarae'r piano ar ei chwrcwd! Ac er gwaetha'r glaw mawr fe benderfynwyd sticio at y sgript gwreiddiol a chloi'r gwasanaeth gyda'r emyn '*Diolch i ti Dduw am ddiwrnod braf*'.

DIOLCH i staff a thrigolion Erw Hir am y croeso twymgalon ac am lond boliaid o fisgedi yn dilyn y gwasanaeth!



CRISTION

- Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydfurfiol ac Anglicanaidd.
- Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau.

Pris: £1.50 Am gopi – cysylltwch â Sulwyn Thomas

GŴYL YSTWYLL 2017

Bu cyfle i'n Gofalaeth ddathlu Gŵyl Ystwyll yng Nghana ar Nos Sadwrn 7 Ionawr 2016.

A da hefyd oedd croesawu cyfellow eraill o wahanol gapeli atom.



Roedd y capel yn edrych yn hynod o ddeniadol dan olau kannwyll, gan osod naws priodol i'r oedfa, a diolch i Rachael Garside a Bethan James am sicrhau hyn.

Mae Gŵyl y Nadolig yn dod i ben ar Nos Ystwyll, ddeuddeg diwrnod wedi dydd Nadolig. Yn ôl traddodiad, dylid tynnu trimins neu addurniadau'r Nadolig i lawr erbyn y diwrnod hwn.

Cawsom y cefndir i Wyl Ystwyll gan ein Gweinidog. Mae'n Wyl Gristnogol sy hefyd yn cael ei hadnabod fel Seren-wyl. *Epiphany* yw'r gair Saesneg am Ystwyll, Daw'n wreiddiol o'r Groeg a'i ystyr yw 'rhoi gwybod'.

Dathlu ymweliad y Doethion o'r Dwyrain â'r baban Iesu a wna'r Ystwyll.. O ddilyn Seren Iesu a chyrraedd Bethlehem, mae'r doethion yn syrthio o flaen y baban Iesu i'w addoli ac yn rhoi anrhegion iddo,. Dônt i werthfawrogi fod Duw wedi dod yn fychan a gwan fel baban i'n byd a'i fod yn cynnig goleuni neu ddechrau newydd i ni. Mae ymweliad y Doethion hefyd yn dangos i ni fod Duw yn awyddus i bawb ddod i adnabod Iesu. Daeth y bugeiliaid a'r doethion i weld y baban Iesu yn eu tro. Er bod gwahaniaeth enfawr rhyngddynt o ran tras ac amgylchiadau bywyd, dysgwn drwy'r Ystwyll fod Duw wedi anfon ei Fab i'r byd er mwyn pawb.

Bu Marlene Jones, Rachael Garside, Ann Jones a Bethan James yn cynorthwyo'n Gweinidog drwy gyflwyno detholiad o ddarlleniadau o'r Beibl, cerddi, emynau a charolau. Roedd hwyl ar y canu cynulleidfaol a manteisiwyd ar y cyfle i ganu un emyn yn ddigyfeiliant yn nhraddodiad y Plygain. Roedd Mair Jones wrth yr organ.

DIOLCH yn fawr iawn i'n Gweinidog ac i Gapel Cana am baratoi noson mor fendithiol ar ein cyfer.





PLANT DEWI

*Grŵp Cefnogaeth
Deoniaeth Caerfyrddin*



BORE COFFI

*Neuadd Ddinesig San Pedr
Dydd Sadwrn, 11 Chwefror 2017
10 y bore*

*Gwestai Arbennig
Sulwyn Thomas*

Pancws - Coffi

*Stondinau yn cynnwys
Stondin Aelodau Heol Awst*

Mynediad: £2

(Tocynnau: Glenys Thomas)

Capel Bancyfelin yn cefnogi

Apêl Sir Gar

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2017



Cystadleuaeth

Tip-it

Nos Wener 24 Chwefror 2017 am 7yh

Tafarn yr Helgwn a'r Cadno, Bancyfelin



Llywydd y Noson

Eifion Howells, Maescowin



Croeso i bawb

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL

Cynhaliwyd gwasanaeth agoriadol dwyieithog ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol yn Eglwys San Pedr ar Nos Sul, 15 Ionawr 2017. Roedd rhyw 50 o bobl o wahanol gapeli ac eglwysi'r dref (Cymraeg a Saesneg) yn bresennol



Croesi Muriau ar bwnc Cymod oedd thema'r gwasanaeth eleni a'r deunydd wedi'i baratoi gan eglwysi'r Almaen.

Cymerwyd rhan gan wahanol gynrychiolwyr o gapeli ac eglwysi'r dref. Yn cynrychioli'r Priordd roedd Gareth Gravell ac Alun Charles,



Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Ddr Noel Davies, Abertawe. Yn ei neges rymus soniodd fel mae rhaniadau rhwng pobl a diwylliannau'n dal i fod y dyddiau hyn, hyd yn oed oddi mewn i deulu'r Eglwys, yn union fel mae muriau'n gallu rhannu cenhedloedd, er enghraifft wal Berlin rhwng 1961 a 1989. Galwodd arnom i ymrwymo o'r newydd i undod a chymod. Duw yw ffynhonnell cymod. Mae'n rhodd gan

Dduw a gofyn i ni'i cheisio a'i derbyn.

Diolch i Martin Dalling (Capel y Bedyddwyr Saesneg) a'r Parchedig Peter Cutts (Y Tabernacl) am drefnu'r gwasanaeth.

Yn ystod yr wythnos, rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener, cynhaliwyd cyfarfod gweddi byr bob bore am 10.30 yn y Capel Wesle. Cafodd y cyfarfodydd eu harwain gan y Tabernacl, y Capel Wesle, y Parchedig Carys Butler, Eglwys y Santes Fair ac Eglwys Crist.





CANOLFAN HEOL AWST EGLWYS Y BEDYDDWYR SAESNEG



*Phil Stephenson
Cadeirydd*

*Janet Mock
Ysgrifennydd*

*Dianne Stephenson
Trysorydd*

Annwyl Mr Evans

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst, i gydnabod yn ddiolchgar eich cyfraniad yn y Priordy at ein Cinio Nadolig.

Mae'r digwyddiad wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd ac rydym yn credu'i fod yn diwallu gwir angen yn ein cymuned leol.

Mae'r Nadolig yn gallu bod yn gyfnod anodd i'r rhai sy'n galaru, neu heb deulu, neu heb fodd i ddathlu'r Ŵyl yn y ffordd draddodiadol.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu pwysleisio wrth eich aelodau fod eu haelioni wedi gwneud gwir wahaniaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth.

Blwyddyn newydd da i chi i gyd fel eglwys, a diolch am eich caredigrwydd a hefyd eich cefnogaeth.

Yn gywir

Dianna Stephenson

Trysorydd

Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar

CYMDEITHAS Y CYMOD

Gweithgaredd Arddangosfa 'Cred a Gweithred'

Yr Atom gyda Chymru dros Heddwch

Nos Lun 13 Chwefror – 7.30



CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL Y PRIORDY

SWPER GŴYL DEWI

yng ngofal

Dynion yr Eglwys

FESTRI'R CAPEL

NOS LUN, 6 MAWRTH 2017 am 7.00 yh

Pawb i ddod â'i fasn a'i lwy ei hun

Pris y Noson £5 (Plant am ddim)

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel, os gwelwch yn dda.

Dewch yn llu!



DRWS AGORED

TYMOR 2016-2017

BORE IAU 15 Chwefror 2017

Festri'r Priordy

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



AGOR Y GAIR

**CYFRES ARALL ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD CYMRAEG YNG
NGHAERFYRDDIN**

dan arweiniad

Y Parchedigion Beti-Wyn James a Peter Cutts

Boreau Iau 1,8,15, 22 Chwefror 2017 11 tan 12
o'r gloch

Canolfan yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Manylion pellach: ☎01267 237696 / 236658

Noddir y Gyfres gan Raglen Datblygu Undebyr Annibynwyr Cymraeg



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

MATER O GONSÝRN I BAWB

Mae'r bwllch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn ein cymdeithas yn peryglu iechyd plant Cymru, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru



Nodir bod angen camau beiddgar i ddelio gyda gordewdra, iechyd meddwl ac ysmegu yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn dangos bod:

- 210 o fabanod, plant a phobl ifanc ar gyfartaledd yn marw yng Nghymru bob blwyddyn; gyda mwyafrif y marwolaethau yn digwydd mewn babanod sy'n llai na blwydd oed;
- Tua 200,000 o blant Cymru yn byw mewn tlodi ac yn fwy tebygol o gael problemau iechyd ac o ymddwyn mewn ffordd fwy mentrus;
- 7% o fechgyn 15 oed a 9% o ferched 15 oed yn ysmegu yn gyson;
- 13% o bobl ifanc 15 oed yn yfed alcohol unwaith yr wythnos;
- 27% o blant Cymru yn dechrau'r ysgol gynradd yn ordew.

Yn ôl y **Dr Mair Parry**, Swyddog y Coleg yng Nghymru, mae tlodi yn cael effaith mawr ar iechyd plant a phobl ifanc

BBC Cymru Fyw 26 Ionawr 2017



Beth am droi at cyfundeb.com?
Gwefan Cyfundeb Annibynwyr
Gorllewin Caerfyrddin



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Gwasanaeth cynta'r flwyddyn newydd Aelodau Bancyfelin yn ein harwain



Twrnaint Pêl-Droed a Phêl-rwyd MIC



**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID
BANCYFELIN**


Nos Fercher 15 Mawrth 2017 am 7 ym Mancyfelin

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 26 Ebrill 2017 yn y Festri am 7

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG
YN Y CYNTEDD**

TORRI I LAWYR AR WASTRAFF BWYD

*Caiff bwyd ei wastraffu pan fo archfarchnadoedd yn cael eu gorfodi i
daflu i ffwrdd gynnyrch sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad gwerthu.
Nodwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan WRAP y llynedd fod 1.9
miliwn o dunelli o fwyd wedi'u gwastraffu gan archfarchnadoedd, tai
bwyta ac unigolion yn 2014-15. Yr amcangyfrif yw y gellid bod wedi
arbed 56% o'r gwastraff.*

*Mae Ymrwymiad Courtauld 2025 yn gytundeb
gwirfoddol uchelgeisiol sy'n dod â mudiadau
ynghyd o bob rhan o system fwyd y DU – o'r
cynhyrchydd i'r defnyddiwr – er mwyn cael
lleihad o 20% mewn gwastraff bwyd a diod
erbyn 2025.*

*Y weledigaeth ar y cyd yw hyn: lle nad oes
modd osgoi gwared bwyd, y dylai holl gwmnïau
bwyd a diod y DU ymdrechu i ailddosbarthu
gwared bwyd cyn ystyried unrhyw opsiwn arall.*



DIOLCH, GRAHAM

UN PENWYTHNOS ym mis Medi 1977 roedd y Parchedig Mike Pussey yn ymweld ag Eglwys y Bedyddwyr yn St James Road, Watford. Roedd gŵr o'r enw **John Boyers** yn gweithio fel myfyriwr o weinidog yno. Fel mae'n digwydd, roedd Pussey'n gaplan yng Nghlwb Pêl-droed Aldershot ar y pryd ac esboniodd wrth y darpar weinidog ifanc mor werthfawr oedd y profiad hwn. Aeth mor bell â'i herio i wneud rhywbeth tebyg yn Watford. Derbyniodd y darpar weinidog anogaeth debyg hefyd gan Alan West, Capten Luton Town, pan fu'n siarad yn yr un eglwys rai wythnosau'n ddiweddarach.



Y penwythnos wedi ymweliad Pussey â'r eglwys ymddangosodd darn gan reolwr clwb pêl-droed Watford yn y wasg leol yn esbonio'i awydd i weld y clwb yn chwarae rhan fwy amlwg yn y gymuned leol a'r gwrthwyneb hefyd. Roedd gwahoddiad i bobl ymateb i'w sylwadau.



Mae'n debyg y bu John Boyers a'i gydweithiwr hŷn yn yr eglwys, Y Parchedig Richard Harbour, yn myfrio a gweddio'n ddwys dros y digwyddiadau (neu'r cyd-ddigwyddiadau hyn). Daethant i'r casgliad fod dyletswydd arnynt i ymateb i sylwadau'r rheolwr a dangos diddordeb mewn bod yn rhan o weithgareddau'r clwb. Erbyn Rhagfyr 1977, yn dilyn dau gyfarfod, daethant yn gaplaniaid y clwb a hynny gyda chefnogaeth lwyr eu heglwys.

Roedd y clwb yn hapus â'r trefniant a chafodd y ddau wahoddiad i barhau am dymor arall. Ymddiswyddodd Harbour ond parhaodd Boyers a oedd bellach wedi'i ordeinio ac yn gweithio'n llawn amser yn ei eglwys. Roedd yr eglwys o fewn hanner milltir i Vicarage Road, cartref Watford. Treuliai Boyers hyd at ddiwrnod a hanner yn y clwb, hyd yn oed ar ôl dod yn weinidog hŷn yn ei eglwys. Y teimlad oedd bod angen iddo ymweud â rhywbeth y tu hwnt i fywyd uniongyrchol yr eglwys.

Bu'n fenter hynod o lwyddiannus. Roedd agwedd rheolwr Clwb Watford at gaplaniaeth yn allweddol yn hyn o beth. Bu'n barod i fentro a sicrhau fod drysau'r clwb yn agored led y pen i'r gaplaniaeth y tu allan i ddyddiau gemau, a rhoddai gefnogaeth barhaus iddi. Er y bu rhai caplaniaid fel Pussey ar glybiau pêl-droed cyn Boyers, y trefniant a'r patrwm a sefydlwyd yn Watford a osododd fodel ar gyfer caplaniaeth y dyfodol.

Bu Boyers yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ac yn gaplan Watford rhwng 1977 a 1992. . Ym 1990

cafodd ei annog gan arweinwyr ei enwad i ganolbwyntio ar ddatblygu caplaniaeth mewn chwaraeon yn llawn amser. Erbyn canol 1991 roedd



wedi helpu i sefydlu Elusen Cofrestredig o'r enw SCORE i arwain y gwaith arloesol hwn. Cafwyd pob cefnogaeth gan Undeb Bedyddwyr Prydain gyda hyn. Yn y flwyddyn ganlynol, penodwyd Boyers yn gaplan Manchester United. Mae'n debyg fod symud o Vicarage Road yn Watford i Old Trafford ym Manceinion yn union fel symud o eglwys i eglwys gadeiriol! Bu Boyers yn gyfarwyddwr SCORE (a newidiodd i Sports Chaplaincy UK yn 2011) ac yn gaplan Manchester United am flynyddoedd ond bellach mae'n canolbwyntio ar y gaplaniaeth yn unig.



Erbyn hyn, mae rhai cannoedd o gaplaniaid mewn chwaraeon amrywiol ar draws gwledydd Prydain ac Iwerddon, yn bennaf mewn pêl-droed, rygbi'r undeb a rygbi'r gynghair, criced a rasys ceffylau. Mae'r gaplaniaeth yn cyffwrdd â chymued gyfan y clwb – y chwaraewyr, yr hyfforddwyr, y staff cynnal a'r cefnogwyr. Mae'n cynnig cynhaliaeth fugeiliol ac ysbrydol mewn dull cwbl anymwithgar ac anenwadol ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan yr amrywiol chwaraeon a'r cefnogwyr fel ei gilydd.

Mae caplaniaeth fel hon yn cyffroi John Boyers i'r byw gan ei bod yn rhoi cyfle i arweinwyr eglwysig ymroddedig fynd y tu allan i'w heglwysi ac ymhel â'r byd ehangach. Mae'n teimlo bod hyn yn bwysig iawn

heddiw gan ein bod yn byw mewn diwylliant a chymdeithas lle nad yw pobl fel rheol yn tyrru i'r eglwys yn naturiol. Efallai y byddent yn gwneud hynny hanner can mlynedd neu chwe deg o flynyddoedd yn ôl ond nid, mae'n ymddangos, yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae Boyers yn credu fod yn rhaid i'r eglwys ailgysylltu â chymdeithas a diwylliant a bwrw i mewn iddynt. Drwy ymwneud â chlybiau chwaraeon o wythnos i wythnos, o fis i fis ac o flwyddyn i flwyddyn, mae caplaniaid yn dod i adeiladu perthynas â phobl ac ennill eu hymddiriedaeth sy'n eu galluogi i ofalu am eu hanghenion ysbrydol a bugeiliol.

PAM SŌN am hyn oll yn awr, meddech chi? Wel ,y rheolwr yn Watford a hyrwyddodd y gwaith hwn yn y dyddiau cynnar oedd **Graham Taylor**, gŵr a gollwyd yn ddisymwth iawn ar 12 Ionawr 2017. Bu'n rheolwr clwb talentog a llwyddiannus dros ben, yn enwedig yn Watford lle bu'n cydweithio'n agos â'r Cadeirydd Elton John. Ni chafodd yr un hwyl arni fel rheolwr Lloegr, ac o ganlyniad bu'n destun dirmyg mawr a chreulon yn y wasg dablod. Ond daeth dros y miri hwn a llwyddo eto fel rheolwr a phwndit pêl-droed. Drwy'i oes bu'n wŵr triw a bonheddig a chanddo gydbwybod cymdeithasol a chonsŷrn am bobl. A thybed yn wir a fyddai caplaniaeth mewn chwaraeon wedi datblygu i'r fath raddau a chael y fath ddylanwad oni bai am ei gefnogaeth dra arbennig i Boyers yn y saithdegau yn Watford? Go brin. Diolch, Graham.



<p>RADIO CYMRU OEDFA'R BORE – 11.30 <i>Bydd yr oedfa ar Fore Sul, 12 Chwefror 2017</i> <i>yng ngofal Beti-Wyn</i></p>	
--	--

	<p>CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN CWRDD CHWARTER NESAF <i>Pant-teg ger Felin-wen</i> Dydd Iau 9 Mawrth 2017 – 10.30 a 1.30</p>
--	--



GWEITHGAREDDAU GŴYL DEWI 2017



Dydd Sadwrn 25 Chwefror 2017

Y Parêd

**Yn dechrau o Barc Caerfyrddin am 11 o'r gloch
Yn gorffen yn y Clos Mawr
Parcio am ddim yn y Dre**

*Derbyniwyd llythyr gan y Cyngorydd Eryl Morgan, Cadeirydd
Cyngor Sir Gâr, yn estyn gwahoddiad cynnes iawn i'r Priordy
ymuno â'r Parêd. Mae gofyn ymgynnull ym Mharc y Dref erbyn
10.45. Gallwn ddod â baner y Ddraig Goch, Dewi Sant neu
Owain Glyndŵr ynghyd â baner neu arwydd a fydd yn nodi'r hyn
sy'n cael ei gynrychioli gennym.*



Dydd Sul 26 Chwefror 2017

**Gwasanaeth Gŵyl Dewi gyda Phlant a Ieuenctid Capeli ac
Eglwysi'r Dre
Y Priordy am 10 y bore**

Oedfa Gymun yn Elim am 5 yr hwyr



Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017

**Ysgolion lleol yn cymryd rhan yn Sgwâr y Dref
Telynores yn perfformio yn y prynhawn
Adran Sylfaen Ysgol y Dderwen yn perfformio yng Nghanolfan
Santes Fair**



Nos Iau, 2 Mawrth 2017

**Talwrn y Beirdd yng Nghlwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin
Y ddau Feuryn – Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones**



Nos Sadwrn 4 Mawrth 2017

**Cyngerdd Mawreddog Ysgol Bro Myrddin
Artist Gwadd – Huw Chiswell
Cyflwynydd – Heledd Cynwal**




LLONGYFARCHIADAU oddi wrth bawb yn y Priordy i Rhiannon Jones, merch Roy a Catrin Heledd, a oedd yn gadeirydd tîm dan 14 **Clwb Ffermwr Ifanc Dyffryn Tywi** yng **Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Clybiau Ffermwr Ifanc Sir Gâr** yn ddiweddar, a hefyd ar gael ei dewis yn un o dri o blith y cystadleuwyr i gyd i fynd ymlaen i'r **Gystadleuaeth Genedlaethol** ym mis Ebrill yn Llanelwedd. Pob llwyddiant iddi y pryd hwnnw!

Eleni, mae **Ysgol Farddol Caerfyrddin** yn dathlu chwarter canrif ers ei sefydlu. Bu eitem am hyn ar **Radio Cymru** yn bore gyda Tudur Dylan Jones ac Aled Evans ymhlith y rhai a glywyd. Bwriad yr Ysgol Farddol yn ystod y flwyddyn yw cyhoeddi cyfrol i gofio'r achlysur yn cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion ddoe a heddiw, gan gynnwys, wrth gwrs, rhai o'r Priordy. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at bori drwyddi unwaith y caiff ei chyhoeddi. A phob dymuniad da i'r Ysgol Farddol i'r dyfodol.

Mae nifer o gleifion y mis hwn. Mae Mari Jones, Rylands, wedi cael triniaeth i'w llygad, ac yn gwella gartref erbyn hyn. Mae Dan O Evans wedi bod yn yr ysbyty am sbel, ond yn gwella bellach. Bu Margaret Jones, Stryd San Pedr, yn yr ysbyty yn Llanymddyfri am ychydig, ac wedi mynd i gartref yn Cross Hands i gryfhau. Sbel fach yn ôl, cwmpodd Eluned Jones a thorri'i braich. Clywsom hefyd fod Emyr, mab Mair Davies, wedi cael stroc rai misoedd yn ôl, a'i fod mewn cartref gofal wrth ymyl ei gartref yn Swydd Buckingham. Treuliodd Gwen Davies amser yn yr ysbyty ychydig yn ôl ond mae hi gartref erbyn hyn. Dymunwn yn dda i bob un a danfonwn ein cofion cynhesaf atynt.

Gallwn ymfalchïo fod ein Hysgol Sul wedi cymryd rhan ym **Mabolgampau MIC**. Diolch i bawb a gymerodd ran, a llongyfarchiadau yn arbennig i'r tîm pêl-rwyd merched cynradd am gipio'r tlws!

Nos Galan ar **S4C** gwelwyd Elinor Wyn Reynolds yn trafod unrhyw eiriau newydd sy'n debygol o gael eu bathu yn ystod 2017. Diddorol iawn! Ac ar 3 Ionawr ar  **Newyddion 9** cafodd Sulwyn Thomas ei gyfworld gan fod Radio Cymru yn 40 oed! Roedd eitem ar **Heno** un diwrnod yn dangos Ffion Parsons a'i hanes yn cael torri'i gwallt – mae'r stori'n llawn yn y **Papur** hwn, hefyd. Ac roedd erthygl gan Menna Elfyn yn **Golwg** tua diwedd Ionawr lle roedd hi'n sôn am ddylanwadau ei theithiau dramor ar ei steil, gyda lluniau da. Diddorol iawn.



Ond i gloi, cyfarchion o'r Priordy i'r gyfres deledu **Ffermio** ar **S4C** ar ei phen-blwydd yn ugain oed eleni. Roedd Sulwyn Thomas yn un o'r cyflwynwyr gwreiddiol ynghyd â Rachael Garside (o gapel Cana) a Gerallt Pennant! Bu Sulwyn yn hel atgofion am hyn fel gwestai ar

Heno un noson. A chafwyd hefyd raglen arbennig ar ddechrau'r flwyddyn yn crynhoi'r cyffro a'r newid mawr i gefn gwlad a'r diwydiant amaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n
Gweinidog ☎ 01267 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

CHWEFROR		MAWRTH	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Adrian Evans	Alun Charles	Wyn Evans

BLODAU

Chwefror	12 26	Catrin Haf Williams Gloria Evans	Mawrth	5 19	Tina Charles Siân Axford
----------	----------	-------------------------------------	--------	---------	-----------------------------

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Chwefror	5	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones
Mawrth	5	Bore	Rhian Pritchard Franklin a Rachel Davies

YMWELWYR

Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
Mawrth / Ebrill	Rhian ac Eirlys Jones. Henry a Bronwen Wilkins

DARLLENWYR CHWEFROR / MAWRTH 2017

Chwefror	5	Gill Owen	Mawrth	5	Elen Marks
	12	Huw Michael		12	Miriam Wyrwoll
	19	Gareth Gravell		19	Jayne Woods
				26	Elinor W Reynolds

ATEBION CWIS PUM MUNUD CANEUON FFYDD MIS IONAWR

1 Iôr 2. Ond 3, Noddfa 4. Anniflanedig 5. Wyddoch 6. Rwy'n

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Alison Parsons ac Eleri Thomas am y lluniau'r mis hwn



Y SULIADUR



Chwefror	5	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni	Cymun
----------	---	--------------	---	-------

	12	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa yng ngofal y Diaconiaid	
	19	Bore P'nawn	Y Parchedig Ddr Desmond Davies Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Ddr Desmond Davies	
	26	Bore Hwyr	Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 yn y Priordy Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriadon y dref am 5.00 yn Elim	Cymun

Mawrth	5	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni	Cymun
	12	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda'r Prifardd Mererid Hopwood	
	19	Bore	Ein Gweinidog	
	26	Bore P'nawn	Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul GD - Gwasanaeth Gŵyl Dewi (Y Priordy) PIP - PIP ar Daith - Dim Ysgol Sul							
CHWEFROR				MAWRTH			
5	12	19	26	5	12	19	26
✓	✓	-	GD	✓	✓	✓ PIP	✓

NOS LUN,6 CHWEFROR 2017

Y FESTRI – 7PM

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

DR FFLUR DAFYDD

